



Department
for Work &
Pensions



Office for
Disability Issues

[Adran Gwaith a Phensiynau] [Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl]

Cynnydd gweledigaeth y DU i greu cymdeithas sy'n gwbl gynhwysol i bobl anabl

Mae gan y DU weledigaeth glir - i greu cymdeithas sy'n gweithio i bawb, lle gall pawb gyfranogi'n llawn. Mae egwyddorion arweiniol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (y Confensiwn) yn rhan annatod o'n hymagwedd, ac rydym wedi ymrwmo i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl ar draws pob agwedd ar fywyd.

Mae'r DU wedi cyflawni cryn dipyn ac wedi bod ar flaen y gad o ran datblygiadau mewn hawliau cydraddoldeb ac anableddau. Serch hynny, gwyddwn fod angen gwneud rhagor. Byddwn yn datblygu ac yn cyflawni gwelliannau gwirioneddol ac ymarferol yn barhaus er mwyn sicrhau bod gan bobl anabl yr un cyfleoedd i gael eu cynnwys â phobl nad ydynt yn anabl.

Roeddwn am gymryd y cyfle hwn, ochr yn ochr ag adrodd i'r Pwyllgor ar y Casgliadau penodol y gofynnodd amdanynt, i fyfyrion ynghylch ein cynnydd ers yr arolwg cyfnodol y llynedd.

Mae'r hyn sy'n dilyn, felly, yn amlygu enghreifftiau sy'n ymwneud â thai, trafniadaeth, iechyd, cyflogaeth, cyfranogi mewn cymdeithas a datblygiad rhyngwladol. Mae'r enghreifftiau hyn yn adlewyrchu penderfyniadau yn Lloegr, Llywodraethau Cymru a'r Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ynghylch y ffordd orau o gefnogi anghenion ein poblogaethau penodol â gwasanaethau wedi'u teilwra.

Cydraddoldeb a deialog

Mae gennym hanes balch o hyrwyddo hawliau pobl anabl. Cyflwynom y ddeddfwriaeth gyntaf yn y byd i gydnabod a rhoi hawliau i bobl anabl ym 1970. Cydnabyddir y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ddiweddarach fel model o ddeddfwriaeth wrth-wahaniaethu effeithiol, ac mae'n dal i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Ers i ni gadarnhau'r Confensiwn hwn, rydym wedi parhau i gryfhau ein fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anabledd a chydaddoldeb drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf yn prif-ffrydio anabledd a chydaddoldeb ar draws y llywodraeth trwy Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel bod rhaid i bob adran ystyried pobl anabl wrth ddatblygu, cyflwyno a monitro deddfwriaeth, polisiâu a gwasanaethau. Mae gan Ogledd Iwerddon ei ddyletswyddau statudol ei hun ar awdurdodau cyhoeddus, a nodir yn Neddf Gogledd Iwerddon 1998.

Ar 21 Mai, cyhoeddais fod y Prif Weinidog wedi creu Grŵp Rhyng-Weinidogol newydd ar Anabledd a Chymdeithas i lywio camau cydlynol ar draws y Llywodraeth. Y nod yw dod ag Adrannau at ei gilydd i gydweithredu i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad a chynhwysiant llawn pobl anabl a gwthio cynnydd ynghylch gweithredu'r Confensiwn.

Rwyf hefyd wedi ymrwymo i gryfhau ein proses yn Lloegr o ymgysylltu â phobl anabl a'u grwpiau cynrychioliadol trwy ddeialog a chydweithredu adeiladol. Rydym am sicrhau bod mwy o bobl anabl yn gallu rhannu eu profiad ymarferol â llunwyr polisi er mwyn llywio datblygu polisi.

Gyda fy nghydweithwyr gweinidogol yn llywodraethau'r Alban a Chymru, yn ogystal â gyda Gogledd Iwerddon, rydym yn benderfynol o gydweithio gyda ac ar ran pobl anabl ledled y DU gyfan.

Trafnidiaeth

Ein nod yw creu system drafnidiaeth sy'n cynnig mynediad cyfartal i bawb erbyn 2030. Rydym yn sicrhau bod gan bobl anabl yr un mynediad at drafnidiaeth â phawb arall, a'u bod yn gallu teithio'n hawdd, yn hyderus a heb gostau ychwanegol.

Yn Lloegr, ymgynghorom ar Gynllun Gweithredu Hygyrchedd drafft y llynedd, gan gwrdd â llawer o sefydliadau pobl anabl a'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl i ddeall eu safbwyntiau, anghenion a phrofiadau. Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddom ein Strategaeth Drafnidiaeth Gynhwysol, sy'n cwmpasu materion trafndiaeth yn Lloegr a'r materion hynny sydd wedi'u cadw ar lefel y DU. Mae'r Strategaeth yn nodi ein cynlluniau i wneud ein system drafnidiaeth yn fwy cynhwysol ac yn well i bobl anabl trwy wella ymwybyddiaeth a gorfodi hawliau teithwyr; gan wella hyfforddiant staff trafndiaeth a sicrhau bod pobl anabl yn cymryd rhan wrth ddatblygu'r hyfforddiant; a gwella gwybodaeth deithio am siwrneiau a chymorth cyn ac yn ystod y daith.

Ledled Prydain Fawr, rydym hefyd yn gwella isadeiledd ffisegol drwy, er enghraifft, sicrhau bod hyd at £300 miliwn ar gael ar gyfer gwelliannau hygyrchedd rheilffyrdd rhwng 2019 a 2024, £2 miliwn i gynyddu'r nifer o gyfleusterau Changing Places yn

sylweddol mewn ardaloedd gwasanaeth ar draffyrdd yn Lloegr a £2 miliwn i sicrhau y gosodir offer clyweledol ar fysiau. Bydd hyn yn adeiladu ar y newidiadau rydym eisoes wedi'u gwneud. Er enghraifft, ers 2006 rydym wedi darparu mwy na £500 miliwn i ddarparu llwybrau rheilffordd hygyrch: mae oddeutu 200 o orsafoedd nawr heb risiau, ac erbyn hyn gwneir 75% o deithiau rheilffordd trwy orsafoedd heb risiau, o'i gymharu â 50% yn 2005. Rydym hefyd yn gwario oddeutu £1 biliwn y flwyddyn ar docynnau teithio rhatach ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol yn Lloegr.

Mae Gogledd Iwerddon wedi ymgynghori ar Strategaeth Gludiant Hygyrch ddrafft sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer rhwydwaith trafniadaeth cynhwysol a hygyrch. Ei nod yw gwella'r isadeiledd ffisegol, ymgysylltu â phobl anabl a chynorthwyo â theithio'n annibynnol. Yn absenoldeb llywodraeth ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon, mae'n parhau i fod yn destun adolygiad a chymeradwyaeth y Gweinidogion a fydd yn dod i mewn.

Tai

Mae gan gymdeithas lle gall pawb gymryd rhan yn llawn gartrefi ac adeiladau y gall pawb gael mynediad iddynt a'u defnyddio.

Mae'r Papur Gwyn Tai yn cyflwyno strategaeth yn Lloegr i sicrhau bod y farchnad dai yn gweithio i bob rhan o'n cymuned, gan gynnwys pobl anabl. Wrth gwrs, gall cynnig dewis gwell o lety helpu pobl hŷn a phobl anabl i fyw'n annibynnol yn hirach.

Cyhoeddom Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol diwygiedig ym mis Gorffennaf 2018 i Loegr. Rydym yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol gael polisïau cynllunio sy'n nodi'r math o gartrefi sydd eu hangen ar gyfer pobl anabl yn ogystal â grwpiau eraill, a sy'n defnyddio safonau technegol dewisol y Llywodraeth ar gyfer tai hygyrch ac addasadwy. Byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd pellach yn yr hydref ar broses gwneud penderfyniadau a darpariaeth tai awdurdodau lleol ar gyfer pobl anabl.

Rydym yn cwmpasu adolygiad o reoliadau adeiladu sy'n cynnwys mynediad a defnydd adeiladau yn Lloegr wrth wneud gwaith adeiladu (Rhan M Rheoliadau Adeiladu 2010). Bydd hyn yn cynnwys safonau sylfaenol presennol sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o adeiladau, Toiledau Changing Places ac adeiladau sy'n cael eu trosi.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i hybu darpariaeth tai â chymorth yn Lloegr, lle darperir llety ochr yn ochr â gofal, cymorth neu oruchwyliaeth i helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosib yn y gymuned. Er 2011, rydym wedi darparu 32,000 o unedau tai â chymorth ar gyfer pobl anabl, pobl agored i niwed a phobl hŷn. Rydym hefyd yn helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel drwy ddarparu addasiadau yn eu cartref.

Ar ôl iddynt gychwyn, bydd rhannau eraill Adran 36 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i landlordiaid yng Nghymru a Lloegr ganiatáu addasiadau i rannau cyffredin o eiddo preswyl a rennir pan ofynnir amdanynt a lle mae'n rhesymol gwneud hynny.

Iechyd

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal o'r ansawdd uchaf yn y byd, wedi'i adeiladu ar egwyddorion arweiniol y GIG: bod mynediad at ofal iechyd yn seiliedig ar angen ac nid y gallu i dalu, a bod gwasanaethau yn gynhwysfawr ac ar gael i bawb.

Yn y gorffennol, roedd pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn profi gwahaniaethu annheg a thriniaeth wael yn rhy aml. Rydym yn gwybod hefyd bod plant â chyflyrau iechyd meddwl yn wynebu cyfleoedd anghyfartal yn eu bywydau, yn arbennig pan fydd y rhain yn parhau i fyd oedolion. Rydym wedi ymrwymo, felly, i roi'r un statws cyfartal i iechyd meddwl ag iechyd corfforol.

Rydym eisoes yn gweld newidiadau calonogol mewn agweddau at iechyd meddwl. Rydym hefyd yn buddsoddi mwy nag erioed mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan wneud £1.4 biliwn ychwanegol ar gael i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn Lloegr o 2015/16 i 2019/20.

Er mwyn adeiladu ar hyn, mae ein Papur Gwyrdd ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ystyried iechyd ac addysg i wella darpariaeth a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn Lloegr. Derbyniodd yr ymgynghoriad fwy na 2,700 o ymatebion, ac yn ddiweddar cyhoeddodd ein hymateb yn nodi'r camau nesaf. Byddwn yn creu Timau Cymorth Iechyd Meddwl newydd i gyflwyno ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl ysgafn i gymedrol mewn ysgolion neu golegau neu'n agos atynt. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gymell pob ysgol a choleg i nodi a hyfforddi arweinydd penodedig uwch ar gyfer iechyd meddwl, yn ogystal â pheilota safon amser aros o bedair wythnos.

Yn aml mae iechyd pobl ag anabledd dysgu, cyflwr iechyd meddwl neu awtistiaeth yn waeth na'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym am leihau'r bwlch iechyd hwn a'u cefnogi i fyw bywydau llawn, iach ac annibynnol.

Er enghraifft, i gyflawni ein Strategaeth Awtistiaeth ar gyfer oedolion yn Lloegr, rydym yn gweithio â chynrychiolwyr o sefydliadau awtistiaeth a gofalwyr, hunan-eiriolwyr, gweithwyr proffesiynol ac adrannau'r llywodraeth. Rydym yn gwella perfformiad gwneud diagnosis ar lefel genedlaethol ac yn gwella data gwasanaethau iechyd meddwl. Casglom ddata am wneud diagnosis a chanlyniadau ôl-ddiagnostig awtistiaeth am y tro cyntaf o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Rydym yn datblygu Fframwaith Sgiliau a Chymhwysedd ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phobl awtistig a phe cyn cymorth a chyfarwyddyd arfer gorau ar gyfer comisiynwyr. Rydym hefyd yn gwneud gwasanaethau allweddol, megis trafndiaeth, yn fwy hygyrch ac yn annog mentrau i gynyddu ymwybyddiaeth o awtistiaeth, er enghraifft 'Cyfeillion Awtistiaeth'.

Ym mis Hydref y llynedd, cyhoeddodd ein Siarter Iechyd ar gyfer Darparwyr Gofal Cymdeithasol, sy'n nodi safonau ar gyfer staff gofal ar ddiwallu anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu yn Lloegr. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd NHS Lloegr alwad i bob darparwr gofal iechyd ymrwymo i'r addewid STOMP. Lansiodd yr addewid Stopping Over-Medication of People with Learning Disabilities' (STOMP) yn 2016 i atal gor-ragnodi meddyginiaeth seicotropig i bobl ag anabledd dysgu, ac fe'i

cefnogir gan glymblaid o gyrff proffesiynol, megis Colegau Brenhinol Nyrsio, Seiciatryddion a Meddygon Teulu.

Cyflogaeth

Mae ein polisiau a chymorth cyflogaeth yn profi'n effeithiol - cynyddodd nifer y bobl anabl sy'n gweithio yn y DU bron 600,000 mewn pedair blynedd i gyrraedd oddeutu 3.5 miliwn yn 2017. Ond rydym am fynd ymhellach, ac rydym wedi ymrwymo i weld miliwn ychwanegol o bobl anabl yn gweithio erbyn 2027.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd 'Gwella Bywydau: Dyfodol Gwaith, Iechyd ac Anabledd', sy'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd yn y system les, y gweithle a'r gwasanaethau iechyd i wireddu'r ymrwymiad hwn. Rydym yn buddsoddi oddeutu £1 biliwn i adeiladu'r dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i gefnogi pobl anabl a'r rhai hynny sydd â chyflyrau iechyd i gael gwaith ac aros yn y gwaith.

Er enghraifft, rydym yn gwario hyd at £500 miliwn drwy'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd newydd, y disgwyliwn y bydd yn helpu oddeutu 275,000 o bobl dros bum mlynedd, â'r mwyafrif (oddeutu 220,000) yn bobl anabl. Mae ein buddsoddiad o £330 miliwn yn ein Pecyn Cymorth Personol ar gyfer pobl sydd ar daith iechyd y Credyd Cynhwysol/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn darparu ystod o ymyriadau a mentrau newydd sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra i anghenion unigol hawlwy'r. Rydym hefyd yn recriwtio 300 o Gynghorwyr Cyflogaeth Anabledd ychwanegol, ac yn cyflwyno 200 o Bartneriaid Cymunedol newydd i ddod â chyngor a chymorth mwy arbenigol i'r Ganolfan Byd Gwaith; ac yn fwy na dyblu nifer y Cynghorwyr Cyflogaeth yng ngwasanaethau Gwella Mynediad i Therapiau Seicolegol (IAPT) y GIG, gan ddarparu cymorth i oedolion ag iselder ac ystod o anhwylderau gorbryder trwy gyngor cyflogaeth a thriniaeth seicolegol integredig.

Mae ein treialon a arweinir gan iechyd yn Ninas-ranbarth Sheffield ac Awdurdod Cyfunol Gorllewin Canolbarth Lloegr yn adeiladu ar yr ymagwedd Lleoliad a Chymorth Unigol (IPS) a gydnabyddir yn rhyngwladol i ddarparu cymorth cyflogaeth mewn lleoliad iechyd ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl a chorfforol ysgafn i gymedrol. Rydym hefyd yn cefnogi Manceinion Fawr a Llywodraeth yr Alban â mentrau ymyrraeth gynnar sy'n ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i bobl gael y cymorth cywir drwy asesiad anghenion, a mynediad cyflym at ymyriadau megis cymorth iechyd galwedigaethol, triniaeth iechyd meddwl a chyhyrsgerbydol, a broceru swyddi. Yn ogystal, mae ein Cronfa Her £4.2 miliwn yn profi ymagweddau newydd neu addawol at helpu pobl sy'n dioddef gan broblemau iechyd meddwl neu gyhyrsgerbydol i aros yn y gwaith.

Rydym hefyd wedi cyflwyno Cronfa Dechnoleg newydd mewn Mynediad i Waith, sy'n cynnig arbedion sylweddol i gyflogwyr ar gost technoleg gynorthwyo. Ac rydym yn parhau i adeiladu ein hymgysylltiad â chyflogwyr drwy Disability Confident, sy'n rhoi'r

offer i gyflogwyr recriwtio, cadw a datblygu cyflogeion anabl yn hyderus, a sydd â thros 7,000 o gyflogwyr wedi'u cofrestru erbyn hyn.

Rydym yn cyflwyno argymhellion Tasglu Maynard i wella mynediad at brentisiaethau yn Lloegr ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu. Rydym wedi gosod mesur llwyddiant ar gyfer cynnydd o 20% yn y gyfran o bobl anabl sy'n cychwyn erbyn 2020, i fyny o waelodlin o 9.9% yn 2015/16 i 11.9% erbyn 2020. Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu ar gyfer addasu'r isafswm gofynion Saesneg a Mathemateg ar gyfer prentisiaethau ar gyfer grŵp diffiniedig o bobl ag anhawster dysgu neu anabledd i lefel mynediad 3. Bydd y newid hwn yn caniatáu i fwy o bobl elwa ar y cyfleoedd sydd ar gael trwy brentisiaethau a gwaith. Ac erbyn hyn mae Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn ddewis amgen i Sgiliau Gweithredol Saesneg ar gyfer y rhai hynny sydd â BSL fel eu hiaith gyntaf.

Rydym yn datblygu cynhyrchion cyfathrebu a chyfarwyddyd newydd i arddangos i bobl anabl, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu, bod prentisiaethau yn opsiwn iddynt ac i gefnogi ac annog cyflogwyr i gyflogi prentisiaid ag anabledd. Mae hyn yn cynnwys 'taflen ffeithiau llwybrau i gyflogaeth' ar y wefan Paratoi ar gyfer Byd Oedolion. Rydym yn gweithio â phartneriaid sectorol a lleol i gynyddu'r nifer o brentisiaid ag anabledd sy'n cychwyn, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu.

Mae gweithgarwch Llywodraeth y DU wedi'i ategu gan fesurau gan lywodraethau'r Alban a Chymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i annog pobl anabl i ennill swydd ac i aros yn y gwaith.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cyflogaeth Traws-Llywodraethol ar Anabledd yn hydref 2018. Mae Cymorth Iechyd a Gwaith yn gynllun peilot dwy flynedd yn Fife a Dundee sy'n dechrau yn 2018, i dreialu atebion newydd i wella canlyniadau cyflogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, yn arbennig y rhai hynny sy'n cael trafferth aros yn y gwaith neu sydd wedi mynd yn ddi-waith yn ddiweddar.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwmo i ysgogi gwelliannau mewn twf cynhwysol, gan gynnwys derbyniad prentisiaethau ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, ac mae'n gweld newid cadarnhaol. Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gyfraddau cyfraniad gwell i bobl ifanc anabl a'r rhai sydd â phrofiad o ofal â'r lefel uchaf o gyllid Prentisiaeth Fodern hyd at 29 oed. Mae niferoedd y bobl sy'n cychwyn ar Brentisiaeth Fodern sy'n hunan-nodi fel pobl anabl wedi gwella fwyddyn ar ôl blwyddyn ers dechrau'r cynllun gweithredu, yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth yr Alban.

Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn canolbwyntio ar gymorth cyflogaeth unigol, cyfrifoldeb cyflogwyr i gefnogi staff, cau bylchau mewn sgiliau a pharatoi ar gyfer marchnad lafur sy'n newid yn sylweddol. Mae'r Cynllun yn ymrwmo i gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n creu gweithleoedd cynhwysol a chefnogol ar gyfer pobl anabl.

Mae Llywodraeth Cymru'm gweithredu i ddileu rhwystrau posib i gyfranogiad pobl anabl mewn prentisiaethau drwy farchnata newydd a gwell, pecyn cymorth ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar-lein i helpu darparwyr prentisiaethau i asesu a

darparu cymorth i brentisiaid anabl, a sefydlu Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol â sefydliadau anabledd i lunio Cynllun Gweithredu Anabledd Prentisiaethau a fydd yn canolbwyntio ar gamau ymarferol i ddileu rhwystrau i bobl anabl wrth gyrchu'r rhaglen brentisiaethau.

Bydd Gogledd Iwerddon yn cefnogi 17,600 o bobl trwy raglenni cyflogadwyedd, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys Camau i Lwyddiant, Workable NI, Rhaglen Rheoli Cyflyrau, Mynediad at Waith a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Cynllunnir y rhaglenni hyn i helpu pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar i ddod o hyd i waith ac i aros mewn cyflogaeth.

Cyfranogi mewn cymdeithas

Credwn y dylai ein swyddi cyhoeddus, o Senedd y DU i lywodraeth leol, adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU, ond ar hyn o bryd mae'r nifer o bobl anabl mewn swyddi etholedig yn rhy isel.

Dyna pam y byddwn ni, gydag eraill, dros y 12 mis nesaf, yn ymgymryd â rhaglen waith i helpu pleidiau gwleidyddol i gefnogi eu hymgeiswyr anabl gorau ac i ystyried sut y gellir cefnogi ymgeiswyr anabl annibynnol hefyd. Tra bo'r gwaith hwnnw ar y gweill, byddwn yn darparu hyd at £250,000 i gefnogi ymgeiswyr anabl ar gyfer etholiadau lleol yn Lloegr yn y flwyddyn i ddod.

Mae Llywodraeth y DU yn benderfynol o fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Mae pobl anabl yn gynulleidfa allweddol o fewn 'Sporting Future: a new Strategy for an Active Nation' Llywodraeth y DU a strategaeth 'Towards an Active Nation' Sport England. Rydym am i bobl anabl wireddu eu potensial i gymryd rhan mewn chwaraeon - fel gwylwyr ac fel cyfranogwyr.

Yn y flwyddyn ddiwethaf mae Sport England wedi gwneud nifer o fuddsoddiadau, gan gynnwys dros £3 miliwn mewn wyth sefydliad chwaraeon anabledd cenedlaethol. Yn ychwanegol, mae dros 70 o brosiectau unigol wedi derbyn buddsoddiad, gan gynorthwyo pobl anabl i gymryd rhan mewn chwaraeon ochr yn ochr â'u teuluoedd, ac yn cynyddu'r nifer o bobl anabl sy'n gwirfoddoli mewn chwaraeon. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd gynlluniau ar gyfer cynllun traws-sector arloesol i roi mynediad gwell i bobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor at gyfleoedd gweithgareddau corfforol ar draws y sector hamdden.

Datblygodd yr Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon a Sport NI y cynllun gweithredu Active Living: No Limits i wella iechyd a lles pobl anabl yng Ngogledd Iwerddon drwy gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden weithgar, gan fuddsoddi hyd at £1.1 miliwn i sefydlu un ar ddeg o gyfleusterau aml-chwaraeon ar gyfer pobl anabl ym mhob un o ardaloedd y Cyngor a darparu cyfarpar arbenigol ar gyfer y lleoliadau hyn.

Mae **sportscotland** wedi buddsoddi i gynyddu cyfranogiad pobl anabl mewn chwaraeon yn yr Alban. Er enghraifft, buddsoddiad o £12 miliwn yn y Ganolfan

Hyfforddiant Chwaraeon Genedlaethol a ailddatblygwyd yn Inverclyde, yr adeilad cyntaf o'i fath yn y DU, gan ddarparu canolfan hyfforddi chwaraeon breswyl gynhwysol ar gyfer defnyddwyr chwaraeon anabl.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Chynllun Cenedlaethol Iaith Arwyddion Prydain (BSL), fel y'i nodir yn Neddf BSL (Yr Alban) 2015. Mae'n cwmpasu pob corff cyhoeddus â ffocws cenedlaethol sy'n uniongyrchol atebol i Weinidogion yr Alban. Mae'r cynllun yn nodi uchelgais yr Alban i fod y lle gorau i ddefnyddwyr BSL fyw, gweithio ac ymweld. Mae wedi'i seilio ar ddeg nod hirdymor sy'n cwmpasu'r blynyddoedd cynnar ac addysg; hyfforddiant a gwaith; iechyd; diwylliant a'r celfyddydau; cludiant; cyfiawnder; a democratiaeth.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo £3.3 miliwn dros dair blynedd (2018/19 i 2020/21) tan rownd nesaf y Gronfa Gymorth Gwirfoddoli, sy'n anelu at gynyddu amrywiaeth y garfan o wirfoddolwyr, yn arbennig pobl a allai brofi rhwystrau i wirfoddoli, gan gynnwys pobl anabl. Ers 2016 mae dros 900 o wirfoddolwyr anabl wedi elwa o'r Gronfa.

Datblygu rhyngwladol

Rydym yn benderfynol o wella bywydau pobl anabl, yn y DU a ledled y byd.

Daeth yr Uwchgynhadledd Anabledd Byd-eang ddiweddar a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU â'r Gynghrair Anabledd Rhyngwladol a Llywodraeth Cenia â llywodraethau, sefydliadau amlochrog, cymdeithas sifil a busnesau ynghyd i fynd i'r afael â nifer o faterion pwysig: achosion craidd gwarthnod a gwahaniaethu; gweithio tuag at addysg a chyflogaeth gynhwysol i bawb; a harneisio pŵer technoleg, arloesi a dyfeisiau cynorthwyol ar gyfer pobl ag anableddau ledled y byd.

Mae'r 'Siarter dros Newid' yn gosod uchelgais fyd-eang ar gynhwysiant anabledd ym maes datblygu rhyngwladol ac ymateb dyngarol. Cofrestrodd dros 320 o lywodraethau a sefydliadau i ymuno â'r Siarter i weithredu ar y weledigaeth a nodir yn y Confensiwn. Arweiniodd hyn at ymrwymïadau uchelgeisiol gan dros 170 o wledydd a sefydliadau ledled y byd i gymryd camau i wella bywydau pobl anabl. Lansiodd llywodraeth y DU 'AT Scale', sy'n bartneriaeth fyd-eang ar gyfer technoleg gynorthwyol, gyda nod uchelgeisiol i gyrraedd hanner biliwn o bobl yn fyd-eang â thechnoleg gynorthwyol hanfodol erbyn 2030. Byddwn yn cyd-gadeirio'r Rhwydwaith Gweithredu Byd-eang ar gyfer Anabledd, sy'n bartneriaeth ar gyfer rhoddwyr, asiantaethau a sefydliadau sector preifat sy'n gweithio ar gynhwysiant anabledd ym meysydd datblygu rhyngwladol a gweithredu dyngarol. Gwnaethom hefyd lansio'r Fenter Addysg Gynhwysol i gefnogi gwledydd sy'n datblygu i wireddu addewid ysgolion, dysgu ac addysgu gwirioneddol gynhwysol.

Gwnaethom hefyd lansio Porth Data Byd-eang newydd, gan ddod â bylchau mewn data anabledd byd-eang at ei gilydd a'u nodi, a hefyd ymunom â'r Siarter Data Cynhwysol i gefnogi ansawdd, maint, cyllid ac argaeledd data cynhwysol a dadgyfunol. Lansiom raglen ddatblygu gynhwysol anabledd, i brofi ymagweddau arloesol at gynhwysiant anabledd mewn gwledydd sy'n datblygu, ac i gymryd ymyriadau addawol priodol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl anabl.

Ymrwymom i gyhoeddi Fframwaith Anabledd newydd yn ddiweddarach yn 2018, gan nodi sut y byddwn yn rhoi anabledd wrth wraidd ein gwaith datblygu rhyngwladol.

Rydym wedi cyflawni llawer, ond mae bob amser mwy y gallwn ei wneud. Mae pobl anabl yn dal i wynebu rhwystrau i gynhwysiant llawn, a byddwn ni'n parhau i ddileu'r rhain, gan weithio â'r cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector tan fod pawb - boed yn anabl ai peidio - yn gallu cymryd rhan yn eu cymuned a chyflawni eu dyheadau. Edrychaf ymlaen at weithio â'r Pwyllgor i barhau i ddangos ymrwymiad y DU i wireddu'r Confensiwn yn raddol a chreu cymdeithas sy'n gweithio i bawb.

Sarah Newton AS

Y Gweinidog dros Bobl Anabl, Gwaith ac Iechyd

Medi 2018